Mwy neu lai?

Ydy eich cartref chi'n rhy fawr i chi?

0300 123 8084

www.ccgwynedd.org

CARTREFI CYMUNEDOL
GWYNEDD

Dogfen heb ei rheoli ar ôl ei hargraffu

System IDAA/ALLL01c/ER/0414 Rhifyn 0

- Ydy eich cartref chi'n rhy fawr?
- Ydych chi'n byw ar eich pen eich hun?
- Ydych chi'n poeni am y gost o gynhesu eich cartref?
- Ydych chi'n ei chael hi'n anodd glanhau eich cartref neu edrych ar ôl yr ardd?
- Ydych chi eisiau byw yn agosach at eich teulu neu ffrindiau?
- Oes gennych chi anabledd neu anghenion arbennig ac y byddai'n haws i chi fyw mewn cartref sydd wedi ei addasu?

Weithiau mae amgylchiadau personol yn newid ac efallai nad ydy eich cartref presennol yn eich siwtio erbyn hyn. Fe allwn ni ddod o hyd i gartref sy'n eich siwtio chi yn well.

Pam symud?

Fe all cartref llai fod yn haws i chi ymdopi ag o, ac fe all y rhent, treth cyngor a chostau gwresogi fod yn llawer llai. Fe allwn eich symud i gartref mwy addas a gwneud unrhyw addasiadau cyn i chi symud mewn fel ei fod yn barod ar eich cyfer ac y byddwch yn gallu byw yn annibynnol.

Bydd eich cartref newydd hefyd yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru ac fe fyddwn yn gwneud yn siŵr fod eich cartref yn lân ac yn daclus a bod unrhyw waith trwsio wedi ei wneud cyn i chi symud mewn.

Efallai eich bod yn byw mewn cartref 4 ystafell wely ond eich bod chi ddim ond yn defnyddio 3, fe allwn ni eich symud i gartref 3 ystafell wely. Efallai eich bod yn byw mewn cartref 3 ystafell wely a dim ond yn defnyddio un, fe allwn eich symud i gartref un neu ddwy ystafell wely. Os ydych chi'n gymwys, efallai yr hoffech symud i fyw i un o'n tai gwarchod.

Mae'r galw am gartrefi mwy yn uchel a drwy symud i gartref llai fe allwch ryddhau cartref y gall teulu ei fwynhau.

Cymorth i symud

Rydym yn deall y gall symud cartref fod yn amser anodd a chostus, ond fe all CCG eich helpu.

Fe allwn eich helpu gyda'r gwaith pacio yn ogystal â chostau symud, efallai y byddwn hefyd yn gallu eich helpu gyda chostau addurno eich cartref newydd.

Fe allwn hefyd roi cyngor ymarferol a chefnogaeth yn ystod y broses symud. Efallai y bydd modd i chi dderbyn buddion eraill gan CCG er mwyn symud.

Sut mae'n gweithio?

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn symud, yna gallwch siarad gydag unrhyw aelod o staff CCG fydd yn gadael i'n tîm gwasanaethau tenantiaid ni wybod er mwyn iddynt gysylltu â chi.

Bydd ein tîm yn egluro'r broses i chi gam wrth gam ac fe allent eich helpu drwy'r holl broses o symud.

Byddwch yn cael eich rhoi ar y Gofrestr Tai. Pan fydd cartref sy'n cyd-fynd â'ch anghenion ar gael, byddwn yn cysylltu â chi. Byddwch yn cael ymweld â'r eiddo cyn penderfynu os yr hoffech fyw yno.

Os oes cartref ar gael i chi ac nad ydych yn barod i symud neu nad ydych eisiau symud i'r eiddo hwnnw, ni fydd rhaid i chi symud a bydd eich enw yn aros ar y Gofrestr Tai.

Pwy sy'n cael symud?

Bydd angen i'ch cyfrif rhent fod yn glir neu eich bod wedi cytuno ar gynllun ad-dalu rhent gyda ni. Ni fydd tenantiaid sydd wedi bod yn rhan o ymddygiad gwrth gymdeithasol yn gymwys i symud.

Eisiau gwybod mwy?

Os ydych chi eisiau gwybod mwy am symud cysylltwch â CCG ar **0300 123 8084** neu **ymholiadau@ccgwynedd.org.uk**

Fe allwn ni roi gwybodaeth a chyngor i chi ac ateb unrhyw gwestiwn sydd gennych ar y broses. Os ydych chi'n cysylltu â ni ynglŷn â symud, a'ch bod yn newid eich meddwl unrhyw dro yn ystod y broses, ni fydd raid i chi symud o'ch cartref.

Newid i Fudd-daliadau Tai

Mae budd-daliadau yn newid. O Ebrill 2013 ymlaen fe fydd y Llywodraeth yn torri Budd-daliadau Tai i denantiaid oed gweithio sydd ag ystafelloedd gwely sbâr yn eu cartrefi. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â sut y gall y newidiadau yma effeithio arnoch, cysylltwch â CCG ar **0300 123 8084**.

Addasu eich cartref

Bwriad CCG yw darparu llety o'r safon gorau sy'n addas i'n tenantiaid. Er hynny, mae prinder cartrefi ar gyfer teuluoedd yng Ngwynedd ac mae'n bwysig ein bod ni'n rheoli ein cartrefi yn effeithiol. Ni fydd CCG felly yn gwneud addasiadau sylweddol mewn cartrefi ble nad yw'n addas i'r math hwnnw o dŷ; mewn cartrefi ble mae ystafelloedd gwely sbâr; ble mae'r addasiadau sydd eisoes yno o safon; ble mae cais i brynu neu symud i gartref arall wedi ei wneud, neu ble mae problemau strwythurol. Am fwy o wybodaeth ynglŷn â'n polisi addasiadau, cysylltwch â ni.

Os hoffech gael y daflen hon mewn fformat gwahanol, fel Braille, llythrennau bras neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar **0300 123 8084**.